Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 9.9:
Mehefin 2003 hyd Mawrth 2004

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar eu llwyddiant wrth gyflawni eu raglenni gwaith. Dyma grynodeb o waith y Pwyllgor ers ei sefydlu ym mis Mehefin 2003 hyd fis Mawrth 2004.

2. AELODAETH

2.1 Dyma aelodau presennol y Pwyllgor, sef Ann Jones (Cadeirydd), Lorraine Barrett, Glyn Davies, Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Sue Essex (Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Mike German[1], Alun Ffred Jones[2], Laura Ann Jones, Peter Law a Dai Lloyd.

3. CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n cynnwys llywodraeth leol a datblygu agwedd strategol at gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Gweinidog mewn perthynas ag arian y Cynulliad nac â faterion polisi neu ariannol sy'n perthyn i bortffolio arall.

3.2 Cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad.

3.3 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn sôn am agweddau penodol ar waith y Pwyllgor o dan y teitlau hyn.

4. GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA

Datblygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

Gweithredu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd o fewn llywodraeth leol

4.1 Ym mis Gorffennaf 2003, cychwynnodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r gwaith o weithredu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd o fewn llywodraeth leol[3]. Gwnaeth y Pwyllgor wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig oddi wrth bobl amrywiol oedd â diddordeb a daeth 72 ymateb i law. Derbyniwyd tystiolaeth ar lafar oddi wrth nifer o gyrff allweddol[4] yn ystod tymor yr hydref ac ymwelodd yr

[1] Ymunodd Mike German â'r Pwyllgor ar 20 Ionawr 2004 yn lle Kirsty Williams.
[2] Ymunodd Alun Ffred Jones â'r Pwyllgor ar 19 Tachwedd 2003 yn lle Janet Ryder.
[3] Dyma Gylch gorchwyl yr ymchwiliad: '*Ystyried gweithredu, yng Nghymru, y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, eu llwyddiant o ran cyflawni system gwneud penderfyniadau mwy tryloyw, effeithlon ac atebol a chynnig argymhellion i annog datblygu arferion da.'*
[4] Dr Rachel Ashworth, Ysgol Fusnes Caerdydd; Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru; Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Syniad a; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Aelodau â nifer o'r awdurdodau lleol yng Nghymru [5] i gasglu mwy o wybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad. Disgwylir y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2004 a bydd yn cynnwys cyfres o argymhellion yn seiliedig ar ddatblygu agwedd strategol tuag at arweiniad gweithredol, cryfhau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu a chynyddu'r cydweithio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo lledaenu arferion da.

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

Adroddiad y Gweinidog

4.2 Mae'r Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ym mhob yn ail gyfarfod gan roi cyfle iddynt graffu ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdanynt.

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

4.3 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Ym mis Mawrth 2004, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2002-03.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

Deddfwriaeth sylfaenol

Mesur Llywodraeth Leol

4.4 Ym mis Mehefin 2003 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Llywodraeth Leol ar y pryd. Y dilyn y drafodaeth gychwynnol aeth ati i edrych yn fanwl ar y darpariaethau penodol yn y Mesur, yn bennaf y cynigion ar gyfer system benthyca darbodus i lywodraeth leol ac Ardaloedd Gwella Busnes. Yn ogystal, aeth y Pwyllgor i'r afael â chraffu'r is-ddeddfwriaeth a oedd yn deillio o'r Mesur (gweler paragraff ? isod).

Y Mesur Paratoadau Sifil

4.5 Ym mis Rhagfyr 2003, yn dilyn dadl yn y cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines, rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Mesur Paratoadau Sifil i'r Pwyllgor i'w ystyried. Er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer ei waith gwnaeth y Pwyllgor wahodd cyrff allweddol a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth i gynnig sylwadau.[6] Ym mis Chwefror 2004 derbyniwyd tystiolaeth ar lafar oddi wrth Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Heddlu (yn cynrychioli'r holl wasanaethau brys yng Nghymru). Yn dilyn hynny cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad [7] yn nodi'r materion allweddol a meysydd i'w diwygio ar gyfer Cymru a'r Cynulliad. Anfonwyd yr adroddiad at yr Aelodau perthnasol yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer trafodaethau yn y camau seneddol oedd yn weddill ar gyfer y Mesur.

[5] Cyngor Dinas a Sir Caerdydd; Cyngor Sir y Fflint; Cyngor Sir Gwynedd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Cyngor Sir Fynwy; Cyngor Sir Penfro; Cyngor Sir Powys.

[6] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Yr Heddlu; y Lluoedd Arfog; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; Yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau a'r Frigâd Dân.

[7] Adroddiad ar y Mesur Paratoadau Sifil, 24 Mawrth 2004.

Is-ddeddfwriaeth
4.6 Ym mis Mehefin 2003 cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar gyfer delio ag is-ddeddfwriaeth. Derbyniodd y Pwyllgor amserlen fanwl o'r is-ddeddfwriaeth oedd ar ddod o fewn portffolio'r Gweinidog ym mhob yn ail gyfarfod ac ystyriwyd 13 Rheoliad drafft yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

4.7 Mae manylion am yr Offerynnau Statudol a ystyriwyd yn y Pwyllgor wedi'u hamgáu yn Atodiad 1.

Deddfwriaeth Ewropeaidd
4.8 Ym mis Chwefror 2004 ystyriodd y Pwyllgor ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar y newidiadau posibl i'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith a'u heffaith ar y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhoddwyd safbwyntiau'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol er mwyn hysbysu'u trafodaeth ar y ddeddfwriaeth.

Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8(ii))
4.9 Cwblhaodd y Pwyllgor ei ofynion i gyfrannu at y broses gyllidebu bob blwyddyn drwy nodi meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gwariant o fewn prif grŵp gwariant llywodraeth leol.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))
4.10 Yr oedd enwebiadau penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor[8]yn gysylltiedig â phenodiad y Beirniad Annibynnol a phenodi aelodau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Materion eraill a gafodd eu cyfeirio gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (v))
4.11 Ar 4 Rhagfyr 11 cyfeiriwyd y Mesur Paratoadau Sifil at y Pwyllgor (gweler paragraff 4.5).

5. MATERION TRAWSBYNCIOL/CYDWEITHIO
5.1 Ym mis Hydref 2003 ystyriodd y Pwyllgor adolygiad y Comisiwn Etholiadol o'r isafswm oed ar gyfer pleidleisio ac ymgeisio yn etholiadau'r DU a throsglwyddwyd ei safbwyntiau i ymgynghoriad ffurfiol y Comisiwn.

5.2 Fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer hysbysu ymchwiliad y pwyllgor i strwythurau rheoli gwleidyddol newydd llywodraeth leol, gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig oddi wrth nifer o grwpiau yn cynrychioli buddiannau lleiafrifol [9].

5.3 Ar ran y Pwyllgor, cyfrannodd y Cadeirydd wybodaeth ffeithiol i adolygiadau o brif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad a Chynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Annibynnol ar gyfer Adolygu'r Sector Gwirfoddol yn eu tro.

[8] Ann Jones a Glyn Davies.
[9] Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal.

5.4 Ym mis Chwefror 2004 gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gymryd rhan yn y gwaith o ystyried y Mesur Paratoadau Sifil.

6. BLAENRAGLEN

Mae blaenraglen waith strategol y Pwyllgor, a gytunwyd ar ddechrau cyfnod yr adroddiad, wedi ei hamgáu yn Atodiad 2.

Atodiad 1

Offerynau Statudol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

A gyfeiriwyd yn wreiddiol o dan Reol Sefydlog 22.6

Cyfeiriwyd The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Pensions) (Wales) Regulations 2003 yn ffurfiol at y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf.

Yr oedd un diwygiad arfaethedig i'r Rheoliadau, ac fe'i dynnwyd yn ôl yn dilyn trafodaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r rheoliadau drafft heb eu diwygio.

Offerynnau Statudol eraill a ystyriwyd gan y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr Offerynau Statudol canlynol:

- *The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003;*
- *The Council Tax (Valuations Bands) (Wales) Order 2003;*
- *The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003*;*
- *The Local Government Act 1972: General Disposal Consent (Wales) 2003;*
- *The Local Government Act 2003 (Commencement) (Wales) Order 2003*;*
- *The Local Government Elections (Wales) Order 2003*;*
- *The Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Amendment) (Wales) Order 2003;*
- *The Non Domestic Rates (Miscellaneous Provisions) (Amendment) (Regulations) 2004;*
- *The Local Authorities (Allowances for Members of Combined Fire Authorities) (Wales) Regulations 2004;*
- *The Local Authorities (Conduct of Referendums) (Wales) Regulations 2004;*
- *The Valuation Tribunals (Amendment) (Wales) Regulations 2004;*
- *The Landlord and Tenant Act 1954 Part 2 (Notices) Regulations 2004.*

Gellir dod o hyd i Adroddiadau ar yr uchod, gan gynnwys manylion am ddiwygiadau posibl ac argymhellion, ar wefan y Pwyllgor[10]

* gwnaed o dan y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol 2003.

[10] http://www.cymru.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/reports-w.htm

Nodwyd yr Offerynau Statudol canlynol l'w hystyried gan y Pwyllgor yn y dyfodol:

– *Business Improvement Districts (Wales) Regulations* a;
– *Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils and National Park Authorities) (Wales) Regulations 2003.*

Atodiad 2

Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL 2003/4

Cyflwyniad

1. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y deuddeg i ddeunaw mis nesaf.

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n ymwneud â llywodraeth leol, meithrin dull strategol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a Chynllun Gofodol Cymru. Nid yw'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Gweinidog mewn perthynas â chyllid y Cynulliad na materion polisi neu ariannol sy'n perthyn i bortffolio arall yn unig.

3. Dyma brif gyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn ôl Rheol Sefydlog 9: datblygu polisi; craffu ar waith Gweinidogion a chyrff perthnasol; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

Amcanion

4. Bydd y Pwyllgor yn meithrin dull strategol o weithio ac yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng pynciau'r portffolio a'i holl gyfrifoldebau.

Blaenoriaethau

5. Y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod:

– *Datblygu polisi (RhS 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y bydd modd iddo ddylanwadu fwyaf arnynt. Yn ystod y cyfnod sydd i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu testunau o'r meysydd polisi isod:

– *rhoi trefniadau craffu newydd ar waith mewn llywodraeth leol*;
– *rôl cynghorau tref a chynghorau cymuned;*
– *annog mwy o ymgeiswyr i sefyll mewn etholiadau lleol.*

– *Craffu ar waith y Gweinidog (RhS 9.7(ii))* – bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor am ddatblygiadau cyfredol yn ei phortffolio bob yn ail gyfarfod. Caiff y Pwyllgor gynnal ymchwiliadau manwl i bynciau penodol hefyd.

– *Craffu ar waith cyrff perthnasol (RhS 9.7 (iii))*– bydd y Pwyllgor yn ystyried gwaith Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Uned Cydraddoldeb Llywodraeth Leol, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, Syniad a'r Comisiwn Archwilio.

– *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (RhS 9.8(i) a 22)* – bydd y Gweinidog yn amlinellu is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn rheolaidd a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar ddeddfwriaeth os oes modd iddo ddylanwadu ar ei chynnwys a bydd hefyd yn ystyried yr is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Dirprwy Lywydd yn ei chyfeirio at y Pwyllgor yn ôl y galw.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn pan fyddant yn codi:

– *cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* (RhS 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn ystod tymor yr haf a bydd yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

– *cwynion* (RhS 9.8(iii) a 21) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Reol Sefydlog 21;

– *penodiadau cyhoeddus* (RhS 9.8(iv) a 20) – bydd y ddau Aelod a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i gyrff cyhoeddus pan fo'r cyfle'n codi;

– *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (RhS 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion eraill y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio ato, ond gofynnir i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion yn gwahodd y cyfarfod llawn i roi gwaith i'r Pwyllgor.

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau penodol ar y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y materion isod yn llywio gwaith y Pwyllgor:

– *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd mewn man heblaw adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cyfle cyfartal wrth iddo fynd i'r afael â'r holl faterion yn ei bortffolio;

– *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – yn ystod ei holl drafodaethau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng twf economaidd a chymdeithasol a diogelu'r amgylchedd, a hynny drwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd argymhellion ei adolygiadau polisi yn adlewyrchu'r egwyddor hon.

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Mehefin 2003